# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ39715 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 8 Rhagfyr 2004

Yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Tachwedd, cytunais i roi crynodeb o'r ohebiaeth yr wyf wedi'i chael â'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch y mater uchod yn Llyfrgell yr Aelodau.

Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd dros Fasnach a Diwydiant at aelodau'r Pwyllgor Materion Domestig fis Medi yn rhoi manylion ei chynlluniau ar gyfer dyfodol rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig wedi mis Mawrth 2006. Cytunodd Llywodraeth y DU i gyfrannu hyd at £300 million o 2006-07 tan 2007-08 (£150 million bob blwyddyn) i gynnal rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig tan fis Mawrth 2008, gan ymestyn y cymorth ariannol presennol o £450m at ei gilydd dros dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2006. Penderfynodd Llywodraeth y DU hefyd i beidio ag ymestyn y polisi presennol i osgoi cau swyddfeydd post lle bynnag y bo'n bosibl y tu hwnt i 31 Mawrth 2006 gan ohirio penderfyniad ynghylch y dyfodol hirdymor nes y bydd rhagor o wybodaeth ar gael o ganlyniad i gyfres o raglenni peilot sy'n cael eu rhedeg gan Swyddfa'r Post Cyf.

Atebais lythyr Mrs Hewitt gan ofyn am ragor o wybodaeth am natur y rhaglenni peilot, ble y byddent yn cael eu cynnal a sut y byddent yn cael eu gwerthuso. Nodais yn glir fy mod o'r farn y dylid cynnal rhai o'r rhaglenni peilot yng Nghymru gan y dylai dyfodol y rhwydwaith fod yn seiliedig, yn rhannol o leiaf, ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio yng Nghymru.

Yn ei datganiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd y byddai gofyniad Llywodraeth y DU y dylai Swyddfa'r Post Cyf osgoi cau swyddfeydd post gwledig, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn parhau tan o leiaf 2006. Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am eglurhad ac am gadarnhad bod yr ymrwymiad a gafwyd gan brif weithredwr Swyddfa'r Post Cyf yn dal yn sefyll, sef y byddai'n parhau i warantu na fyddai'n cymryd y camau cyntaf i gau canghennau a ariennir gan y gronfa tan 31 Mawrth 2008. Eglurodd Mrs Hewitt fod yr ymrwymiad hwn gan Swyddfa'r Post Cyf yn dal i sefyll ac y bydd y polisi i osgoi cau swyddfeydd post lle bynnag y bo hynny'n bosibl yn parhau tan 2008 ar gyfer swyddfeydd post a ariennir gan gronfa datblygu swyddfeydd post.

Cefais ateb gan Patricia Hewitt ar 16 Tachwedd. Yn ei llythyr dywedodd y penderfynwyd ymestyn yr arian trosiannol ar gyfer swyddfeydd post gwledig ar hyd a lled y DU am ddwy flynedd arall er mwyn rhoi rhagor o amser i gasglu tystiolaeth cyn penderfynu ar ddyfodol hirdymor y rhwydwaith gwledig. Mae'r arian yn cynnwys cronfa gwerth £25 miliwn i Swyddfa'r Post Cyf ddatblygu a threialu dulliau o ddarparu gwasanaethau er mwyn cael hyd i ffyrdd mwy cynaliadwy o sicrhau bod gwasanaethau swyddfa'r post ar gael mewn cymunedau gwledig.

Er mai mater gweithredol i Swyddfeydd Post Cyf ydyw, y mae'n disgwyl i swyddfa'r post gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru, ac yn ei hateb, cyfeiriodd at raglen beilot yn ymwneud â gwasanaeth bws bro yn Lawrenni.

Bydd canlyniad y rhaglenni peilot hyn yn sail i'r penderfyniad ynghylch a ddylid, neu sut y dylid, ymestyn y cyfarwyddyd i Swyddfa'r Post Cyf i osgoi cau swyddfeydd post lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond nid yw Mrs Hewitt yn gallu dweud ar hyn o bryd a gaiff y cyfarwyddyd presennol ei ymestyn y tu hwnt i fis Mawrth 2008. Nid yw'n credu y bydd swyddfeydd post a ariennir gan y gronfa datblygu swyddfeydd post yn cau, os bydd modd osgoi hynny, tan fis Mawrth 2008 o leiaf.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ39722 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 7 Rhagfyr 2004**

**At Janice Gregory:**

Yn ystod cwestiynau'r Cynulliad ar 24 Tachwedd gofynasoch ynghylch costau cyngor proffesiynol i grwpiau gwirfoddol, gan gyfeirio'n benodol at ffioedd penseiri ar gyfer adeiladau cymunedol. Cytunaf i ymchwilio i'r sefyllfa ac agor trafodaethau â chyrff proffesiynol.

Mae'r ceisiadau am grantiau a wnaed yn ddiweddar i'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn dangos y caiff amrywiaeth eang o ffioedd eu codi. Maent yn amrywio yn ôl y gwaith y mae angen ei wneud a'r unigolion a benodir. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl broffesiynol yn rhwym wrth gyfraddau ffioedd safonol, felly mae cyfleoedd i grwpiau chwilio am y pris gorau. Weithiau bydd rhai'n fodlon paratoi lluniadau heb y sicrwydd y bydd arian ar gael, neu'n gweithio am ddim os oes ganddynt ddiddordeb personol yn y cynllun. Yr wyf yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd y rhan fwyaf yn codi tâl am eu gwaith.

Mae nifer o ddewisiadau a all fod yn addas i helpu grwpiau sy'n cael trafferth sicrhau gwasanaethau am gost resymol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod grwpiau'n cael cyngor ar sut i benodi pobl broffesiynol, hybu mentrau cymunedol, a chynnig arian i helpu grwpiau i ddatblygu eu cynlluniau. Mae swyddogion wedi gwneud trefniadau i drafod y materion hyn â Chymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru a Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ39685, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 13 Rhagfyr 2004**

**At Janet Ryder:**

Yn ystod cwestiynau llafar ar 24 Tachwedd, cyfeiriasoch at y prosiect 'Dewis Bywyd' a gaiff ei redeg ar hyn o bryd yng ngharchar Walton. Dywedais fy mod yn ymwybodol o'r prosiect hwn ond y byddwn yn gwneud rhagor o ymholiadau.

Mae'r prosiect 'Dewis Bywyd' yn un diddorol yn wir a deallaf ei fod ar y gweill eisoes yng ngogledd Cymru. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol Wrecsam a Sir y Fflint eisoes yn cymryd rhan yn y prosiect a, hyd yn hyn, mae naw ysgol uwchradd a phedwar sefydliad gwasanaeth ieuenctid cymunedol wedi cymryd rhan. Deallaf hefyd fod partneriaethau eraill yng Ngogledd Cymru wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan.

Yr wyf wedi credu erioed bod addysgu'n plant yn ddull ataliol allweddol. Dyma pam imi gefnogi rhaglen ysgolion Cymru gyfan a arweiniwyd gan yr heddlu. Hefyd, efallai y byddai gennych ddiddordeb clywed bod un neu ddau o gynlluniau eraill, tebyg i 'Dewis Bywyd', ar y gweill mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae rhai ohonynt yn canolbwyntio at faterion cyffredinol yn ymwneud â diogelwch cymunedol, nid ar gamddefnyddio sylweddau'n unig.

Er enghraifft, yng Ngwent, mae disgyblion yn gweld perfformiad o ddrama'n dwyn y teitl *Crime of your Life* sy'n ymwneud â'r ffordd y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn troi'n ymddygiad troseddol ac yn arwain at garchar. Yn dilyn y perfformiad, caiff y disgyblion eu hannog i drafod y pynciau llosg sy'n codi o'r ddrama.

Mae carchar Caerdydd hefyd wedi bod ynghlwm wrth brosiect 'Prison! Me? No way!' ers 1997. Tîm o bedwar o swyddogion y carchar sy'n cyflwyno'r rhaglen i ysgolion ac asiantaethau yn ardal Caerdydd. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys rhagarweiniad, ac yna fideo

byr yn dangos effeithiau bwlio. Yna, ceir sesiwn holi at ateb am fywyd mewn carchar yn gyffredinol. Ar ôl y cyflwyniad, estynnir gwahoddiad i'r ysgolion fanteisio ar y cyfle i ymweld â charchar Caerdydd.

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu drama sy'n dwyn y teitl *Off the Streets*. Prif thema'r ddrama yw ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond mae'r ddrama'n trafod alcohol a chyffuriau hefyd yn ogystal â merched yn eu harddegau'n beichiogi. Caiff y ddrama, a ariennir gan grant o £10,000, ei gweld gan y rhan fwyaf o blant 11-13 oed ar hyd a lled Cymru yn ystod y tri mis y bydd ar daith. Bydd y daith nesaf yn cychwyn ddechrau mis Ionawr, a daw i ben ddiwedd Mawrth 2005, ac mae'r trefnwyr wedi gofyn am gael ei chyflwyno i Aelodau'r Cynulliad naill ai mewn ysgolion lleol neu mewn perfformiad arbennig yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd ichi.